

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW
7:30YH 19^{EG} IONAWR 2022
YN FESTRI PANDY TUDUR

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Diane Roberts (DR), Ann Vaughan (AV), Einir Williams (EW), R. Emlyn Williams (REW), Gwydion Jones (GJ) & Gwynfor Davies (GD)

1.3 Ymddiheuriadau: Garffild Ll Lewis (GLL) & Mark Davies (MD)

1.4 Absennol: Gwyn Williams (GW)

2 DATGANIAD DIDDORDEB

AV - 7.1.

3 COFNODION I'W GWIRO 15^{FED} RHAGFYR 2021

6.1 – cywiro presept dim awdit. Cynnigwyd yn gywir gan REW ac eilwyd gan AV.

4 MATERION YN CODI

REW wedi archebu 7 arwydd 'Dim Cŵn'. Trafodaeth am leoliadau ar gyfer yr arwyddion, cynghorwyr am eu gosod yn y tri pentref, pawb yn gytun os bydd angen mwy bod posibl eu archebu.

DR yn codi fod y gwaith torri coed yn y fynwent yn daclus iawn.

EW yn codi Y Fron oedd yn dod ar y farchnad yn fuan, EW wedi trefnu hysbysu trigolion Gwytherin. *GD yn cyraedd y cyfarfod. GD hefyd yn adrodd fod y neges wedi cael ei basio i drigolion Pandy Tudur. CR yn nodi ei fod bellach ar wefan Iwan M Williams.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 0/49234: dim sylw, cymeradwyo.

5.2 0/49252: dim sylw, cymeradwyo.

6 MATERION ARIANNOL

6.1 Diolchodd CR i DR am baratoi'r ddogfen gwariant/cyllideb ar gyfer y cyfarfod. Trafododd y Cynghorwyr y ffigyrau ac yn penderfynu ar gyfer presept 2022-23.

AV yn adrodd ei bod wedi cael cwyn fod glaswellt yn cael ei adael yn y fynwent yn dilyn torriad a wedi cael cais i dorri'r glaswellt yn amlach. Trafodaeth os yw'r glaswellt yn cael ei dorri'n amlach a chodi'r glaswellt wedi ei dorri, angen i'r ffigwr yn y presept i adlewyrchu hyn, cynyddwyd i £3,500.

REW wedi gofyn wrth CVSC am dempled ar gyfer yr asesiad risg ar gyfer y fynwent. Adroddodd EW fod un hefyd wedi ei dderbyn ar ebost gan Un Llais. Hwn i'r baratoi yn yr is-bwyllgor mynwentydd.

Cynghorwyr yn gytun ar y ffigyrau fel drafodwyd i gael cyfanswm o £13,230. EW yn nodi fod y Cyngor wedi cyfranu tuag at y presept llynedd. Cynnigwyd gyfranu £3,000 o goffrau'r Cyngor Cymuned tuag at gyfanswm y presept, gofyn am £10,230. Cynghorwyr i gyd yn gytun.

7 MATERION Y CYNGOR

7.1 CR wedi gyrru at Naomi Williams o Bute Energy i drefnu cyfarfod cyhoeddus ond heb gael ateb. EW yn hysbysu fod goheibiaeth wedi dod i mewn gan Non Davies yn gofyn os oedd

dyddiad ar gyfer y cyfarfod cyhoeddus ac yn gofyn oedd Un Llais wedi ymgynghori efo Cynghorau Cymuned. DR yn adrodd nad oedd hi wedi derbyn dim gan Un Llais ynglyn â hyn, wedi cysylltu efo clerod o gynghorau eraill ac yn deall nad oeddynt wedi derbyn dim chwaith.

EW am ymateb i ohebiaeth Non Davies yn adrodd nad yw'r Cyngor wedi derbyn cylchlythyron gan Un Llais ynglyn â hyn ac nad oes dyddiad wedi ei benodi hyd yn hyn.

- 7.2** Adroddodd CR fod y coed wedi eu clirio, canmoliaeth fod y gwaith yn daclus iawn ac wedi ei wneud yn gyflym. CR am gysylltu efo'r ysgol i ofyn os ydynt am blanu coed newydd yn lle, fel drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf fod prosiect gan y *Woodlands Trust*.
- 7.3** EW wedi bod yn Currys a wedi cael amcan brisiau oddeutu £400 ar gyfer gliniadur a rhaglen *Microsoft Office* am £150. Cynghorwyr i gyd yn gytun i EW brynu gliniadur a'r rhaglen a chael ad-daliad yn y cyfarfod nesaf.
- 7.4** Datblygwr ddim wedi mynychu'r cyfarfod oherwydd nad oedd yn gallu cyraedd oherwydd trafnidiaeth. CR wedi bod mewn cyswllt efo'r Cyngor Sir i gael diweddariad, perchennog wedi cael estyniad ar gyfer gyrru tystiolaeth i'r Cyngor.
- 7.5** Angen trefnu cyfarfod i baratoi'r asesiad risg a thrafod y prisiau. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf, REW yn aros am y templed asesiad risg. Templed asesiad risg sydd wedi ei dderbyn gan Un Llais yn hirfaeth felly penderfynwyd aros am y templed gan CVSC fel drafodwyd uchod yn 6.1.

8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Dim adroddiad wedi dod i law ond GLL wedi ebostio cyn y cyfarfod yn nodi ei bod wedi bod yn gyfnod tawel dros yr wythnosau diwethaf felly dim llawer i'w adrodd. Cynghorwyr yn siomedig nad oedd adroddiad wedi ei dderbyn. CR am gysylltu efo GLL.

9 BILIAU

- 9.1** Enlli: £138.87, cytunwyd i dalu.
- 9.2** Arwyddion Dim Cŵn: £78, cytunwyd i dalu.

10 MATERION LLEOL

EW yn codi yn dilyn gosod y ffens diogelwch yn y parc yn Gwytherin, fod arwyddion wedi eu gosod ar y ffens yn un-iaith Saesneg i beidio parcio ar dir preifat. Oherwydd eu bod wedi cael eu gosod ar y ffens, mae'n edrych fel taw'r Cyngor Cymuned sydd wedi gosod yr arwyddion. Mae'n debyg taw'r contractwyr osododd y ffens sydd wedi eu gosod, ond ddim ar ran nac ar gais y Cyngor Cymuned. Trafodwyd nad yw'r Cyngor yn gallu gwneud dim am hyn.

Cais gan aelod o'r cyhoedd i gael pont fechan ger Bryn yr Erw at ffynnon y plwyf oherwydd nad oes pont yno bellach. EW & REW am fynd yno i weld y safle ac adrodd yn ôl yn ystod y cyfarfod nesaf.

DR nodi fod perchnogion y Lion yn Gwytherin dal heb wneud cais newid defnydd yr adeilad. EW am yrru ebost i'r Cyngor Sir yn gwneud ymholiadau o gyfeiriad ebost y Cyngor Cymuned.

Llwybr cyhoeddus o Pen y Bryn i Bont Faen dal heb ei drwsio. CR yn adrodd fod hyn ar waith gan yr awdurdodau a fod y llwybr ar gau tan fydd y gwaith wedi ei wneud.

Wedi cael cwyn am lwybr sydd yn pasio Hafodunos, CR yn adrodd fod y llwybr yma hefyd wedi ei gau gan y Cyngor Sir yn dilyn storm diweddar.

Codi ei bod wedi cael gwybodaeth fod Bute Energy wedi cysylltu efo tir feddianwyr ers Medi 2020 ond y polisi heb ei basio gan Llywodraeth Cymru tan Chwefror 2021.

Gofyn os taw'r Cyngor Cymuned neu y Capel sydd berchen y fynwent yn Pandy Tudur, GD yn cadarnhau taw'r Capel sydd ei berchen.

REW wedi hysbysu'r Cyngor Sir am gwyn am gyflwr allt Plas Mattw.

11 CYFARFOD NESAF

23^{ain} Chwefror 2022 yng Nghanolfan Bro Cernyw

Cyfarfod yn dod i ben 9:20yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan